Cyfres Llanbedr | Chwefrol 1928 | Cyf. 28. Rhif 2.

Profwch bob peth. Rhyddid: Gwirionedd: Cariad. Deliwch yr hyn sydd dda

Yr Ymofynnydd.

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Y. Golygydd. — Y. Parch T. Oswald Williams.

— Cynnwys. —

Nodiadau'r Golygydd.
John Bach.
Ein Myfyrwyr a Christionogaeth
John Davies (neu "Iaci"), Abercerdinen.
Urdd y Benywod.
Adolygiadau.
Priodasau. Marwgofion.

Y Gwirionedd aeh rhyddha chwi

Argraffwyd gan J. D. Lewis Gwasg Gomer Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis ; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. Oswald Williams, M.A., Lampeter.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. Lewis, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

Mynnwch gael yr Argraffiad Newydd o

"TELYN DEWI,"

SEF GWAITH PRYDYDDAWL

Y Parch. DAVID DAVIS, o Gastell Hywel.

CYFROL DLWS.—Pris 3s. 6c. ; drwy'r Post, 3s. 10c.

Anfoner i SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSSUL.

CHANNING HOUSE SCHOOL

HIGHGATE, LONDON, N.6.

Public School for Girls.

FEES 130 GUINEAS.

Foundation Scholarship Examination in March.

For Particulars apply to THE HEAD MISTRESS.

T. E. Jones, & Co.

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers and Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, etc.

Yr Ymofynnydd.

- - Cylchgrawn Misol - -

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cyfres Llanbedr. CHWEFROL, 1928. Cyf. XXVIII. Rhif 2.

Nodiadau'r Golygydd.

DYWEDAI'R Deon Inge nad oedd y penboethyn cyffredin wedi meddwl ei ddiwinyddiaeth ac y mae'n anodd heddiw dywedyd beth a gredir yn bendant. Y mae rhyw anesmwytho ymhobman. Yn Nhraethodau'r Deyrnas, "Crefydd yng Nghymru" y mae'r Athro D. Miall Edwards, M.A. yn darlunio'r sefyllfa yng Nghymru.

Malines a'r LlyfrGweddi

"Y mae'r hen Ddiwinyddiaeth yn farw. Dyna osod y peth yn *blunt*, ond credwn ei fod yn wir ar y cyfan. Nid oes gan y bobl y sy'n ein meddwl ddiwinyddiaeth y gellir ei nhodi'n eglur—corff o ddiwinyddiaeth yn eu pennau na'u calonnau. Ni chredant mwyach yn ysbrydoliaeth lythrennol y Beibl, rhaghanfod, pechod gwreiddiol, yr iawn fel trafodaeth fasnachol, tân uffern na chospedigaeth dragwyddol. Nid "oes ganddynt ddefnydd" i athrawiaeth y Drindod. * * Nid yw dwyfoldeb (divinity) Crist fel y'i ysbonir yn yr hen gredoau yn cymeradwyo ei hun iddynt bellach. * * *

Nid fod yr hen athrawiaethau wedi cael eu hystyried yn fanwl a'u cael yn brin ond eu bod yn hytrach yn ymwybodol neu yn hanner ymwybodol wedi'u gollwng o'r meddwl ac wedi peidio a gweithredu fel argyhoeddiadau gwir a llawn meddwl."

Ni chredaf yr amheuir hyn odid gan neb y sydd wedi meddwl a threiddio dan yr wyneb. Ni chredaf fod yr oes yn troi'i chefn

ar grefydd. Rhyw symud terfynau yr ydym a heb nodi'r ffin. Rhyw dreio a llanw a neb ond odid yn gwybod yn iawn ble y mae ond ys dywed Yr Athro Miall Edwards "y mae yna ffydd wir yn Nuw Iesu Grist ac yn Iesu Grist fel datguddiwr o Dduw, yn y syniad mawr Cristionogol o Deyrnas Dduw, yn nilysrwydd gwerth (values) y da, y gwir a'r prydferth, yn ystyr ac amcan ysbrydol bywyd, yng ngoruchafiaeth cariad fel y peth mwyaf mewn bywyd." Dyna ond odid a esbonia yr ymgomio ym Malines er dangos ohono rhyw barodrwydd anesboniadwy i dynnu tua Rhufain a phan ydyw yr Eglwys Wladol yn rhannu ar y Trawsylweddiad unwaith yn ychwaneg y mae'n werth cofio geiriau Dr. Barnes ar y Cymun "Fe'i gwerthfawrogwn. Felly hefyd y gwerthfawrogwn weddi unig, neu eiriau oddiwrth ddyn da pan fyddo fel y dywedir yn tywallt ei enaid, neu fyfyrdod tawel pan roddo'r heulwen ogoniant i brydferthwch natur. Paham? Am ateb dywedwn gan betruso bob tro. Teimlwn yn well orherwydd. Cawn drwyddo dangnefedd a llawenydd. Yr ym yn nes at Dduw." Beth arall a fedrem ddywedyd?

* * *

I saw a dead man's finer part
Shining within each faithful heart
Of those bereft. Then said I, "This must be
His Immortality."

Yn ystod y mis hunodd un o wyr mawr Llên ac ni cheid enw uwch ond odid yn Llenyddiaeth Lloegr heddiw nag eiddo Thomas Hardy, y Nofelydd a'r Bardd. Ys dywedai rhywun "Rhyw bwer ysbrydol oedd ei eiddo ef. Gwnae iddi ymddangos yn anrhydeddus i ysgrifennu, a dymunol i ysgrifennu gyda didwylledd." Ni pherthyn i mi mewn nodiad geisio dim ond coffau ei enw a gŵyr llu o'm darllenwyr am Tess, Jude the Obscure, The Mayor of Casterbridge ac ereill ond odid. Fel bardd "ni wthid yr anghyffredin arno. Medrai gyrraedd ei effaith barotaf drwy symlrwydd perffaith, fel yn ei gân fechan a elwid 'The Walk,' rhyfeddod o deimlad. Medrai hefyd fel yn ei soned brydferth ar ddiffyg y lleuad ysgrifennu gydag urddas traddodiad. Yr oedd yn deyrngarol eto i'r traddodiad a etifeddodd yn ei hoffter o fydr ac aceniad a chanfyddir llaw meistr yn yr amrywio nad oedd yn arbrofi ond bob amser yn effeithiau teimlad. Yr oedd hen donau'r wlad yn ei ben ac ychwanegent eu heco yn ei benillion." Gorwedd ei weddillion yn Abaty Westminster, ond y mae'i "galon" yn naear Wessex a'i enw wedi'i gerfio ar galon pob un a gar lenyddiaeth.

Thomas Hardy.

John Bach.

AR y ffordd gul rhwng Talgarreg a Chapel Cynon, ryw filltir weddol hir o'r ddau bentref mewn lle cysgodol, tawel, yn llawn wynebu haul canol dydd, saif hen amaethdy cysurus Alltymaen. Pasia dieithriaid ar hyd yr heol gyfyng y tu cefn i'r ty, ac onibai am gyfarthiad y cwn gallent fyned heibio heb wybod fod yno dy o gwbl ; ond gŵyr y cyfarwydd pa sut i dynnu plet o iet y Capris heibio'r ardd, a thrwy'r clôs. Mae'n amlwg fod Rhys Etna Jones yn gwybod yn dda am y plet yma, oblegid y sonia yn ei gân er cof am ei fam am "ddwyn afalau o glawdd ardd Alltymaen" ; a rhaid i'r ysgrifennydd gyfaddef gyda gwrid ei fod yntau, yn ei ddydd, wedi bod yn euog o'r un trosedd.

Mae hen deulu gwledig y Lewisiaid yn byw yma ers rhai cenedlaethau ; pobl weithgar, gynnil a chefnog, yn byw yn heddychol yn yr encilion, heb ofalu am faterion byd-eang ; bechgyn yr aradr, a'r oged a'r eidion ; gwragedd y gwartheg, a'r moch a'r stond gorddi ; yn byw iddynt eu hunain fel teulu, ac eto yn barod bob amser i wneud cymwynas a chymydog. Nid hawdd oedd gan un o'r teulu ymadael a swllt o arian ; ond yr oedd yr aelwyd bob amser yn agored ; a thân, a bwyd, ie a llety wythnos a rhagor i'r neb y teflid y drws o led y pen iddo ; unwaith y ceffid adnabyddiaeth o'r teulu, nid allai'r un o honynt wneud gormod o garedigrwydd i'w lletywr.

Y mae dros ddeugain mlynedd wedi mynd heibio er pan ddaeth y teulu presennol i fyw i'r ffarm ; ond mae John Lewis yr hynaf oedd gwr y ty y pryd hwnnw ; John Mowr fel y gelwid ef gan ei gymdogion ; gwr cryf, cadarn, a Chymreigaidd i'r eithaf oedd John Mowr. Yr oedd John y mab, neu John Bach o'r pump i'r deg ar hugain oed y pryd hwnnw ; ond John Bach a fu gan ei gydnabod drwy ei oes ; a'r crwt John yna a fu gan ei dad hyd y diwedd.

Croniclwyd marwolaeth John Mowr ar dudalennau'r Ymofynnydd flynyddau'n ol ; weithian dyma John Bach wedi mynd, ac erbyn heddyw mae'n gorwedd yn dawel gyda'i deidiau ym mynwent yr Eglwys Fach—fel y galwai plant yr ardal gynt hen Eglwys Capel Cynon. Efallai nad yw marwolaeth John Bach wedi gadael adwy lydan iawn mewn byd ac eglwys ; dichon fod yna well ffarmwyr yn bod yn yr ardal ; yn wir mae'n sicr fod yna well amaethwyr, oblegid hen lanc hen ffasiwn, o deulu hynafol a hynod o hen ffasiwn oedd John ; ac nid oedd yn hyddysg iawn mewn gwybodaeth ddiweddar ; yr oedd gwybodaeth iddo ef yn

llyfr tan sêl. Drwy nifer o ddigwyddiadau damweiniol, mae'n debig ei fod wedi dod yn wr cefnog, ie, os gwir y chwedl yn wr cyfoethog iawn yn ol safon gwlad ; ond ni wnaeth golud yr un gwahaniaeth i John ; bu fyw'n syml, tawel, a di-ymhongar hyd y diwedd. Yr oedd ei holl fyd yn ymestyn o ffin y Capris hyd dop yr Alltddu, ac o Flaencwrt i Flaenyrhafod.

Darllenai'r Faner, neu'r Ymofynnydd, neu'r Cyfaill Eglwysig yn drwsgl ac heb ryw ddiddordeb mawr ; dysgodd ddigon o Saesneg i ddweyd y drefn wrth ambell grwt o Sais yn ei wasanaeth ; ond nid agorwyd ei ddychymyg erioed i ddim bron tuallan i'w gylch cyfyng ei hun. Ni chlywais iddo fod allan o Sir Aberteifi erioed—er ei bod yn bosibl iddo fyned ryw dro i farchnad Caerfyrddin. Ac eto—yr wyf fi ymysg llawer o fechgyn y fro sydd yn hoffi cadw ei goffadwriaeth yn gysegredig. Anodd esbonio paham yr hoffwn un person, ac y methwn hoffi'r llall. Beth bynnag, teimlwn fy mod yn ei adnabod yn dda ; a thebig ei fod yntau yn fy adnabod innau yn llawn cystal. Gwyddwn yn dda y pethau a'i diddorai ; ystoriau diniwed am bobl a adwaenwn yn dda ; hanesion y ffeiriau : pris y caws, y menyn, y cig ; y mynd a oedd ar y defaid, a'r gwartheg a'r ceffylau ; y rasis, y cwn cadno, ambell i gwrs milgwn ; a chan mai hen lanc a fu drwy ei oes yr oedd ambell stori garu yn flasus iawn iddo. Yn ei ffordd ei hun, trafaeliodd froydd rhamant serch ; gwn lawer o'i gyfrinachau, yn enwedig gan fy mod wedi ysgrifennu llawer llythyr drosto pan oeddwn yn grwt ; nid oedd fawr o law ganddo gyda'r ysgrifbin ei hun. Yn wir edmygai'n fawr y neb a fedrai'r gelf o osod ei feddwl a'i deimlad mewn du a gwyn ; a chredai fod rhyw gyfriniaeth wyrthiol mewn llythyr—a thyna'r rheswm, efallai iddo fyw a marw ym myd hen-lanc-yddiaeth. Diniwed iawn oedd yn y cyfeiriad hwn fel mewn llawer cyfeiriad arall—ond dyna, gwn lawer o ddirgelion ei fynwes—a thyna'r cwbl am danynt.

Nid oedd ei fyd, fel y dywedwyd, yn eang, ond bu fyw i bwrpas yn ei gylch ; ychydig oedd ei gyfeillion, ond bu'n ffyddlon i'r cyfeillion hynny, mi gredaf, hyd ddiwedd ei oes.

Ugeiniau o weithiau, pan oeddwn ar dramp o Dalgarreg i Gapel Cynon, y bum drwy glôs Alltymaen ; ac ar y funud yma yr wyf yn arogli sawr archwaethus y cawl cennin yn berwi yn y ffwrn yn y gegin fach. A chymerai Anna'r ferch yn ganiataol bob amser fy mod ar newynu ; ac fel rheol yr oedd yn llygad ei lle. Neu efallai ei bod tuag amser te ; a da y gwyddai'r teulu fy ngwendid pan o fewn cyrraedd cremshwced o hufen a chiltyn o hen gosyn poeth ; heb son am ambell i dorth o fara barlys. Neu os byddai tuag amser godro yr oedd basned o laeth ffres bob amser i'm

croesawu. Cariad cwpwrdd! ie, yn rhannol yn ddiameu; ond rhaid cael rhyw fodd i fynegi serch onid oes! Yr wyf weithiau wedi profi geiriau teg a bola gwag; ac yn fy myw y medraf ddygymod a'r pethau hynny. Geiriau digon garw a gefais ar hen aelwyd Alltymaen—ond gwn fod y cofion am dani yn aros yn annwyl iawn; a hyderaf fod gweddill yr hen deulu, pan yn cwrdd o gylch y tân ar noson oer o aeaf yn sôn, nid yn gwbl angharedig am ysgrifennydd blysig y llinellau anghyswllt hyn.

Bum yn cerdded yng nghwmni John o Geinewydd adref ar ambell hwyr o aeaf; araf y cerddem a maith oedd y ffordd yn y dyddiau hynny; ond yn ystod y saith milltir hirfaith dolciog caem hamdden i drin materion y byd a'r Betws—ac nid oedd un gyfrinach dan gêl gan y naill na'r llall ohonom. Mor felys oedd yr "hoe" yn y Synod, pan eisteddem ein dau ar y sciw gyffwrddus yn ymyl y tan—ag un peint o gwrw twym, a siwgwr brown a nutmeg ynddo efallai, ar y ford fach gron rhyngom, yn drachtio am yn ail, mewn perffaith gyfeillgarwch, er yn groes i reolau syberwyd y dyddiau hyn. Ac wrth gwrs poced John Bach oedd yn cyflenwi'r tair ceiniog; cryn aberth iddo yntau yr adeg honno yn ei hanes. Ac yna wedi gorffwys a gwresogi, byddai'r ymddiddan yn fwy byw a gwresog oddiyno i Rydyfenter, a Lluestfach a Blaenglowonfawr—byddai arwyr y preimin redig, neu wrhydri gwyr ar ben ffair, neu garwriaeth merch y Darren Fawr, neu briodas mab y Fadfa yn dod o dan ein beirniadaeth; a chyn ymadael byddai'r naill yn adrodd wrth y llall ei uchelgais ym myd cyfoeth, serch, a bri; a rhaid oedd cael chwarter awr yn ychwaneg wrth y garreg wen ar ben y Lon i gael cwnsela'n ddistaw bach am bethau yr oeddid ofn i'r cloddiau eu clywed.

Efallai fod hyd yn oed ffarmwyr yn y fro yn llanw cylch eangach nag eiddo John Bach; gwn fod digon o honynt heddyw yn llawer mwy goleuedig nag ef; y maent i gyd yn uwch eu cloch ac yn ffraethach eu tafod. Ond a ydynt o fwy defnydd i gymdeithas? Ar un olwg ymddengys eu bod. Ond nid wyf yn hollol sicr o hynny. Nid yw cadw swn bob amser yn ychwanegu at wir gynnydd dynoliaeth; y mae'r rhan fwyaf o honom yn llawer mwy hunanol ac hunangar nag y dewiswn gyfaddef ein bod; cylch bychan yw eiddo'r mwyafrif mawr o honom ninnau. Pwy fedr haeru ei fod wedi gwneud gwell gwaith yn y byd yma nag a ddarfu John Bach? A oes gwell graen ar siop hwn, ar dalcen glo hwnacw, ar ysgol y naill, ar awdl y llall, nag sydd ar feysydd Alltymaen? Hyd yn hyn, beth bynnag,

Son am dano mae pob erw
Wrth y Nef—

a dichon fod tystiolaeth y glaswellt am ddyn mor bwysig yng ngolwg y Nef a thystiolaeth ei gyd-ddyn. Syml iawn yw gwaith gonest bywyd dyn, a'r gwaith nesaf i law ddylasai hwnnw fod, fel rheol. Yn ol y goleu a gafodd, credaf i John Bach i wneud yn agos iawn i'w oreu ; am ba nifer o honom y gellir honni rhagor ? Carodd ei gymydog oreu y medrai ; mor ychydig ohonom wna ragor ?

Yr oedd yn grefyddol yn ol ei oleuni, heb wneud llawer o arddangosfa o'i broffes ; a thalai barch i weinidogion y gair, o bob enwad. Efallai nad oedd John mor fach a'i enw wedi'r cwbl. Nid oes neb yn byw yn ofer, sydd yn dilyn galwedigaeth onest gynyrchiol. Pa nifer o bendefigion a phobl a elwir yn fawrion gwlad sydd yn tylodi'r tir yn foesol ac yn faterol ? Gŵyr angel y cyfrif. Na, nid yw John mor fach wedi'r cwbl.

Byth ni ddychwelaf i fro fy mebyd heb deimlo fod gwacter ar ei ol ; ni rodiaf dan yr Allt heb deimlo fod hen gyfaill annwyl wedi mynd, am byth ; ni thariaf ar ben y Lon heb deimlo ias o hiraeth am un o hen ffrindiau goreu fy machgendod. Ni chroesaf o'r Capris i ymyl clawdd yr ardd heb gofio am yr oriau dedwydd a diniwed a dreuliais yn ei gwmni gynt. Mae'r blynyddau yn cyflymu heibio ;—

Pa le mae'r gwyr fu'n dadleu 'nghyd
Rinweddau'r yd a'r wyn ?—
Mae'r ffordd yn arwain dros y rhiw
I erw Duw ar dwyn.

Ac yr wyt tithau wedi dy alw adref atynt :

Ffarwel iti, John Bach !

SARNICOL.

Ein Myfyrwyr a Christionogaeth.

DYDD O WEDDI DROS FYFYRWYR Y BYD.

CHWEFROL 19, 1928.

MAE rhyw ddeugain mlynedd er yr amser y bu Henry Drummond a nifer fechan o fyfyrwyr gydag ef yng Ngholeg Aberystwyth yn cychwyn mudiad Cristnogol arbennig ymysg y myfyrwyr. Bychan iawn oedd y mudiad ar y cychwyn ; cyfyng oedd ei ddiddordeb : araf y bu ei ysbryd yn cyniwair drwy

y Colegau. Ond yspryd byw iawn oedd er hynny, ac ni fu ball ar ei ymdaith. Erbyn heddyw byddai yn anodd dyfod o hyd i goleg yn y wlad heb ynddo gangen o'r Mudiad—Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr. Ant allan i'w galwedigaethau, yn athrawon, meddygon, peirianwyr, pregethwyr, deintwyr, amaethwyr, masnachwyr, penseiri, meddygon anifeiliaid, arlunwyr a chrefftwyr,—a pha beth bynnag a fyddont cant gyfle i weled bywyd a'u gwaith y' ngoleuni Crist drwy y Mudiad. Mae rhai miloedd o fyfyrwyr yn aelodau ohono ym Mhrydain. Bydd dros fil yn bresennol bob blwyddyn yn y Cynadleddau a gynhelir yn yr haf i symbylu ac arwain gwaith y flwyddyn yn y Colegau. Hwylia tua chant o genhadon allan o'r newydd i'r meysydd cenhadol bob blwyddyn, rhai a gafodd weledigaeth ac arweiniad i'w gwaith drwy Undeb Cenhadol y Mudiad. "Y bychan a aeth yn fil a'r gwael yn genedl gref!"

Mae'n naturiol fod dull y Mudiad o weithio mor amrywiol a'r myfyrwyr a geir ynddo. Efallai mai cyrddau cyhoeddus ar nos Sul yw'r dull mwyaf poblogaidd o geisio dylanwadu ar y colegau. Yn y rhain ceir anerchiadau ar faterion crefyddol o bob math, a'u hapel yn uniongyrchol at y myfyrwyr. Weithiau cyrddau mawrion dan sang ydynt, y brwdfrydedd yn uchel, yr holi ar y siaradwr yn llawn afiaeth ac awydd am ddyfod o hyd i'r gwir—neu yn dawel gan ddefosiwn dwys. Bryd arall, lle arall, ni fydd ond nifer fach o rai a welodd y llewyrch ac am fyned ymlaen, neu rai yn ceisio gweled.

Dibynna ar amrywiol amgylchiadau ym mywyd y Colegau: i raddau hefyd ar sel yr aelodau eu hunain. Nid dyma unig ffordd Mudiad o weithio ychwaith. Ceir canolbwynt ei egnion yn y cyfarfodydd gweddio a gynhelir am ryw ugain munud y bore—yn ddyddiol neu'n wythnosol. Meddylia yn galed hefyd, ac astudia. Casgl y myfyrwyr bob yn chwech neu ddeuddeg neu ugain i drafod cwestiynau pwysig mewn cylchoedd myfyr—pob cylch a'i bwnc ei hun. Mae meddwl yr ifanc yma am setlo anawsterau y Cread a'r galon ddynol, mewn barn ac afiaeth. Crwydra'n eang, a daw yn ddisymwth i bwynt, digon annisgwyliadwy. Byddys yn ymdrin, efallai, a bywyd gwledig Cymru a'r modd i'w wneuthur yn fwy o lwyddiant. Cyfyd cwestiwn safon byw o hynny—pa faint sydd ar deulu ei eisieu i gael bywyd cysurus, prydferth; ym mha le y mae incwm blynyddol y tu hwnt i'r hyn sydd gyfiawn. A dyma ni yn glir ac yn bendant yn wyneb gofynion y Bregeth ar y Mynydd a Damegion y Cyflogau. Yn bersonol ac ymarferol iawn hefyd "Os cawn ni le y flwyddyn nesaf, pa faint o gyflog sy'n iawn i'w dderbyn?" Ewch i gylch arall, ac fe'n cewch yn penderfynu pa

fodd y dylid ymddwyn at China neu Rwsia : yn anghofio cymydog y drws nesaf yno, efallai—er mai da cofio nad yn nhy'r drws nesaf y mae'r cymydog agosaf yn byw bob amser.

Newidia testunau diddordeb myfyrwyr o goleg i goleg, ac o flwyddyn i flwyddyn. Dilynir cyfnod o ymroddi i chwilio athroniaeth a diwinyddiaeth crefydd gan gyfnod arall lle yr astudir cymwyster y ffordd Gristnogol yn y bywyd cymdeithasol a diwydiannol ; ymlaen wedyn at berthynas y gwledydd a'u gilydd, a rhyfel—yna'n ol at Grist a'r bywyd personol. A chymryd y Mudiad drwyddo gellir dywedyd bod y myfyrwyr heddyw yn gofyn yn bennaf dim am Efengyl syml, am ddeall y bywyd ysbrydol oddimewn, am ddysgu ymarfer gweddi a distawrwydd gerbron eu Duw. Ni fyddai hynny, ychwaith, yn wir am bob Coleg. Yng Nghymru, er engraifft, cynhyrfir un o'r colegau gan eisieu gwybod am Berson Crist ; neges yr Efengyl at y bywyd o'u cwmpas sydd wedi deffro coleg arall—ei neges am Dlodi a Rhyfel, ac ansawdd bywyd cymdeithasol y coleg ei hun ; ac mewn un arall, drachefn, ceir myfyrwyr yn ymholi ynghylch cenedlaetholdeb, comiwnistiaeth, hiliogaethau'r byd, gwyddoniaeth a chrefydd, a bywyd bob dydd. Yn yr un modd fe newidia'r dôn a'r pwyslais, y geiriau arwyddocaol, yr emynau a genir. " Gwasanaeth " oedd arwyddair y blynyddoedd cyn y Rhyfel—credaf mai " Gwirionedd " oedd nod y blynyddoedd a'i dilynodd ac, efallai, " Personoliaeth." Erbyn heddyw y mae o leiaf sibrwd o " Efengyl " ac " Iechydwriaeth " yn y morwydd.

Eto, drwy'r cwbl, fe bery rhai nodweddion ymhob lle a chyfnod. Mae yn rhaid hynny. Ffordd Iesu a Ffydd Iesu yw sail y Mudiad, o hyd, ac y maent bob amser, ymhob lle, a'u her yr un. I fyfyrwyr y rhoddir yr her, ac ni newidiant hwythau, yn y bôn.

Ymdroa'r myfyrwyr ym myd y meddwl, gan chwilio am ddeddfau'r byd a bywyd. Mae yn naturiol iddo gan hynny holi ac ameu y ffydd y magwyd ef ynddi. Mae ei feddwl yn tyfu, ei syniadau yn ymeangu ac ymgyfoethogi. Os yw ei grefydd i fod yn wir ac yn *real* rhaid iddi hithau ddatblygu ac ymeangu hefyd. Ar ryw olwg rhaid i'w ffydd gyfarfod yr un gofynion a'i gredoau gwyddonol neu ni wna mo'i dro os yw'n fyfyriwr o ddifrif ac yn unplyg yn ei grefydd. Y mae arno angen mawr, felly, bob amser, am hyfforddiant go drwyadl yn y Beibl a daliadau ei grefydd : ni wiw ei adael iddo'i hunan i gysoni gwyddoniaeth a hanes y ganrif hon a chrefydd ei blentyndod. Heblaw hyn, y mae'n dysgu am fyd dynion, bywyd cymdeithas, ac yn cymharu'r pethau a wel yno a dysgeidiaeth Iesu Grist. Dyhea am batrwm y Ddinas Santaidd (bydd yn sicr o ddal i ganu " Jerusalem"), ac ni wel yr un ym

meddiant yr Eglwys. Edrych ar ei fywyd yn y Coleg fel paratoad at waith yn y byd, ac am hynny bydd yn sier o wneuthur astudio'r byd yn rhan o'i ddyletswydd fel Cristion tra yn y Coleg—gwleidyddiaeth a diwydiant ei wlad ei hun a holl wledydd y byd. Ceisio deall yma ystyr lawn ac ymarferol "yr ewyllys ar y ddaear" a ffordd rhodiad y "bara beunyddiol." Caiff ei hun yn aml mewn lleoedd digon dyrys, gyda'r ffydd a'r ffordd. Eithr fe ddaeth goleuni a nerth lawer pryd i'r Eglwys a'r Deyrnas oblegid ei ymchwil ei weledigaeth a'i ymgysegriad.

Mae'n amlwg fod effeithyleiddio y Colegau yn yr ystyr hon yn waith arbennig iawn. Dyna'r hyn a gais Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr ei wneuthur. Gwethia drwy Undebau o'r Myfyrwyr eu hunain yn y Colegau, a chytarfodydd megis y buom yn son amdanynt. Danfonir staradwyr arbennig i'r Colegau hefyd i annerch ac i hyfforddi ar wahanol bynciau a chyhoeddi'r llenyddiaeth bwrpasol gan y Mudiad ar wahanol faterion crefyddol. Yn wir y mae llythau y Mudiad yr *S.C.M.* erbyn hyn yn hysbys am ei safon uchel. Rhoddir cynorthwy hefyd i'r undebau lleol gan "ysgrifenyddion teithiol" y Mudiad. Mae swyddfa ganolog i'r holl waith yn Llundain. Cyfarwyddir y gwaith yng Nghymru gan bwyllgor o efrydwyr Cymru a'r ysgrifenyddion Cymreig; ac erbyn hyn y mae ganddynt hwythau eu canolfan bychan yng Nghaerdydd.

Yng Nghymru cydweithia'r Mudiad gydag Urdd y Deyrnas. Cais Urdd y Deyrnas weithio yn debyg i'r Mudiad ymysg ieuenctid Cymru (pa un bynnag a fuont mewn coleg a'i peidio). Deall y ffydd Cristnogol a byw ynhob cysylltiad y bywyd Cristnogol yw delfryd yr Urdd hefyd. Yn ei Chynhadledd flynyddol ac yn ei llenyddiaeth ymrodda i wybod yn well am bywyd Cymru y ngoleuni'r Deyrnas. Cyhoeddir *Yr Efrydydd* gan Fudiad y Myfyrwyr ac Urdd y Deyrnas yn gytun.

Soniais yn barod am gynadleddau yr haf. Ymgasgl nifer fawr o fyfyrwyr iddynt—bydd rhyw bum cant neu chwech yn nwy Gynhadledd Swanwick (yn swydd Derbi).

Mis Goffennaf diweddaf cynhaliwyd cynhadledd arbennig i fyfyrwyr Cymru yng Nghaerlleon ar Wysg y gyntaf i Gymru. Daeth rhyw gant ynghyd yno, o oreuon bywyd ifanc ein gwlad. Ceisio deall y bywyd Cristnogol a'i modd i'w fyw yn bersonol ac yn gymdeithasol yr oeddent. Am wythnos felly mewn cymdeithas hyfryd, lawen -eto o ddifrif yn gwrando ac yn trafod pynciau mawrion yr Efengyl a'r Deyrnas, cin byd ni yn yr ugeinfed ganrif a'r Duw sydd a phwrpas i'r byd. Nid oedd yno wahaniaeth—

rhwng Methodus, Wesle, Annibynnwr, Bedyddiwr, Eglwyswr; rhwng mab a merch; rhwng Cymro a Sais. Ond pawb yn un gymdeithas yn cael Crist yn Arglwydd a'r Deyrnas yn obaith.

Ymysg y myfyrwyr hyn y mae addewid am ddyfod bywyd newydd i'r Eglwys -eisoes fe ddangoswyd cymaint a allai'r myfyrwyr ei wneuthur dros undeb ac mewn gwasanaeth ymroddedig. Gwelsom yn ein plith addewid hefyd am ein gwneuthur yn genedl well—yn byw mewn uniondeb a chariad a phurdeb. Ac o undeb a gweledigaeth myfyrwyr y byd y mae'r gobaith goreu y daw heddwch a chyfiawnder i deyrnasu ymysg y cenhedloedd.

Fe ofynnir gan hynny ar i bobl Cymru gofio yn arbennig am fyfyrwyr y byd y dyddiau hyn. Ar yr wythnos sy'n dechreu Chwefror 19 bydd y myfyrwyr yn gwneuthur ymdrech arbennig am gyfraniadau ariannol i ddwyn y gwaith ymlaen. Byddai yn dda iawn gan yr Ysgrifennydd dros Gymru (y Parch. Owen Griffith, 24, Llandough Street, Caerdydd) dderbyn rhoddion gan bersonau neu eglwysi a deimla ddiddordeb yn y gwaith.

Ond yn arbennig fe erfynnir am ein gweddiau, yn bersonol ac yn y gynulleidfa, ar ddydd Sul, Chwefror 19.

Dros holl fyfyrwyr y byd, ar iddynt weled eu breintiau a'u defnyddio i amcanion Teyrnas Dduw. Dros y rhai sydd yn arddel Crist ymhlith rhai diffydd.

Dros yr athrawon yn y Colegau. Dros Golegau Cymru, yr athrawon a'r myfyrwyr.

Dros Fudiad Cristnogol y Myfyrwyr, yr ysgrifenyddion a'r myfyrwyr. Dros y Gynhadledd nesaf yng Nghaerlleon, a'r holl waith yn y Colegau.

Ar i waith y Mudiad fod ar linellau ewyllys Duw, ac iddo fod yn foddion i wneuthur Crist yn Arglwydd ym mywyd cin gwlad. Ar iddo godi arweinwyr i'r cenhedloedd a fydd yn gallu adnabod ewyllys Duw a chanddynt ymddiried a nerth i'w gwneuthur hi.

Aberystwyth. GWENAN JONES.

NODIAD. Gellir cael mwy o wybodaeth am Fudiad y Myfyrwyr, a gweddiau neilltuol at y Dydd Gweddi gan yr Ysgrifennydd, y Parch. Owen Griffith, 24, Llandough Street, Caerdydd.

John Davies (neu "Jaci"), Abercerdinen.

BRAWD ydoedd Jaci i'r Dafydd Datis o'r Felinban yr ysgrifennais am dano mewn llith flaenorol. Dechreuodd ei yrfa briodasol ym Mhantywilco. Eithr yn Abercerdinen y trigiannai adeg ty adnabyddiaeth i o hono. Y mae hen dai Abercerdinen wedi'u tynnu i lawr i gyd ond un, ac eraill wedi'u hadeiladu yn eu lle. Yr un eithirad yw'r ty y trigiannai Jaci a'i deulu ynddo. Bu iddo deulu lluosog. Meibion iddo oedd y diweddar Evan Davies, saer, Capel Sant Silin (bu ef farw'n gymharol gynnar), David Davies, adeiladydd, William Davies, maengerfiwr, y ddau yn ddinasyddion o dref "nid anenwog" Llanbedr, a Thomas Davies, yntau'n faengerfiwr, ac yn byw yn Llanbedr y blynyddoedd olaf o'i yrfa: ac enwau ei ferched oedd Mary, Margaret, a Sara. Y maent i gyd wedi mynd hwnt i'r llen—yr olaf, Thomas Davies, ychydig gyda blwyddyn yn ol.

Yr adeg gyntaf y cofiaf y teulu, trigiannent yn y ty to gwellt gerllaw gwesty Abercerdinen, y sydd eto mewn bod—fel y sylwyd eisioes: a gwneid y teulu i fyny o hedwar o aelodau—y tad a'r fam a dwy ferch. Labrwr oedd Jaci o alwedigaeth. Gweithiai yn y ffermydd cyfagos, ond yn bennaf ar fferm Neuaddfawr. Yr oedd yr Yswain Hughes—y cyntaf o'r tri a ddug yr enw—yn hoff iawn o hono. Un rheswm am hyn yn ddiau oedd ei arabedd naturiol, di-wenwyn. Blinid yr Yswain ar droion ac i ryw fesur gan glefyd poenus y pruddglwyf: a da oedd ganddo gwmniaeth pobun a fedrai'i godi o'r cyflwr truenus hwnnw—"y pentref iselder ysbryd," ys dywed Telynog. Yn y cysylltiad hwn daw i'm cof stori am dano a amlyga'n danbaid iawn ei arabedd parod. "Shaci," meddai'r Yswain wrtho un tro, "ma gen i glaw ise'i godi. Pryd deui?" "Ol reit, syr, mi ddo gynted a medra i. Sut glaw yeh chi am gal?" "O, ma claw o gerrig sychion cystal a dim, ar a wn i." Aeth cryn amser heibio, ond nid oedd argoel bod Jaci'n dod at y clawdd. Ymhen tipyn, cwrddodd yr Yswain ag ef eilwaith. "Shaci, ma'r claw heb ei godi eto." "Odi, syr, mae e; ond—sut gallwn i ei godi?" Pam, Shaci?" Ond wedsoch chi mai claw o gerrig sychion oeeh am gal: a mae hi wedi bwrw glaw byth oddiar hynny." Y mae arabedd yr ateb hwn yn amlwg i'r sawl a wyr beth a olygir wrth "glawdd o gerrig sychion."

Yr oeddynt i gyd yn gerddorion. Nid peth hawdd a fyddai dod o hyd i deulu wedi'i lyncu i fyny mor llwyr gan frwdfrydedd

dros ganu a'r teulu bach hwn. Nid erioed yr euthum i'w ty—pan oeddwn blentyn anaml iawn yr awn heibio heb alw—heb imi gael fy nghyfarch yn rhyw ddull tebig i'r un a ganlyn (gan yr hen wr fynychaf, gan yr hen wraig weithiau): "Nawr, Dafydd bach, dere inni gael tonc fach o ganu," a thynnid llyfr "Ieuan Gwyllt" i lawr o'r gist lyfrau. Yr oedd llyfr Ieuan Gwyllt yn ei fri pennaf yr adeg honno. Tybiwn fy mod yn ganwr bryd hynny; ie, tybiwn fy mod yn ganwr ardderchog iawn. Canu "counter" a wnawn, "alto" fel y'i gelwir yn awr. Y mae'r gair "counter" wedi mynd allan o arferiad er's blynyddoedd lawer—wedi'i disodli gan yr enw mwy clasurol "alto"; eithr ni sonid am "alto" bryd hynny, dim ond "counter." Yn union y tynnid y llyfr i lawr, aem ati i ganu o ddifrif—un o'r merched yn canu'r llais uchaf, y llall y Tenor, yr hen wr y Bas, a minnau y "counter," gyda'r hen wraig yn y cornel yn uno a'i holl enaid. Digwyddai hyn ymron bob Sul—wrth fynd o honof i'r Ysgol fynychaf.

Mynychai yntau fel ei frawd, yr Ysgol yn gyson: a bum gyda hwy lawer gwaith yn un o dri—dau weithiau pan fethai un o honynt a bod yn bresennol. Gwan oedd yr Ysgol yng Nghapel-ygroes bryd hynny, oddieithr ar adeg Cymanfa neu ymweliad ag un o'r tai cyrddau cylchynol. Am ychydig Suliau cyn un neu'r llall o'r achlysuron hyn, deuai nifer luosog ynghyd. Dyddiau mawr yr achos oedd y ddeuddydd hyn. Efallai y daw llith ar y testun hwn bob yn dipyn.

Sylwais eisioes ar fy nyled i Ddafydd Dafis. Nid oedd fy nyled ddim llai i wrthrych y llith hon. Dan eu cyfarwyddyd, deuais i feddiant o gryn fesur o wybodaeth fuddiol—gwybodaeth a fu'n ddefnyddiol iawn imi lawer adeg ar ol hynny. Medrai'r ddau ddarllen yn rhagorol; a meddent fedr rhyfeddol fel esbonwyr—rhyfeddol, o ystyried eu manteision. Yr oedd gan y ddau esboniad ar y Testament Newydd (ni chofiaf ei awdur): a gwnaent ddefnydd da o hono. Eithr na thybied y darllenydd y cydsynient a phopeth a oedd ynddo. Yr oeddynt yn Undodiaid trwyadl; gwyddent beth oedd Undodiaeth; ac ni fedrai neb beri iddynt wyro oddiwrth y ffydd Undodaidd—y ffydd "a rodded unwaith i'r saint," yn ol eu tyb hwy. Dylwn sylwi, yr un pryd, mai Undodiaid o'r Hen Ysgol oeddynt. Yn wir, yr oedd yr Undodiaeth Newydd a ddysgid gan Wilym Marles ar ol Theodore Parker yn anathema i'r mwyafrif o Undodiaid yr adeg honno.

Mewn cerddoriaeth, fodd bynnag, y rhagorai Jaci ar ei frawd. Ni fedrai Dafydd ganu, os cywir fy nghof. Yn unrhyw achos, ni wnai lawer a cherddoriaeth. Jaci oedd y canwr; ac ef, hefyd, oedd y "codwr canu." Y mae un digwyddiad arbennig mewn perthynas iddo fel canwr—fel "codwr canu"—wedi aros yn fyw iawn ar fy nghof, na allaf ymatal rhag cyfeirio ato. Yr oedd Mr. Thomas yn hoff iawn o roddi allan emyn Iolo a ddechreu "O'm

golwg aed y byd, aed a'i wageddau "mhell," etc. Perthyn i'r emyn i gyd ryw bedwar o benillion. Ac yr oedd gan Jaci un dôn, ac un dôn yn unig oedd ganddo, ar fesur yr emyn, na wyddai nemor i neb arall o'r gynulleidfa fawr am dani; gyda'r canlyniad y rhaid i Jaci ei chanu ymron i gyd eu hunan, heb fawr iawn o gymorth —dim ond ambell i "donc" yma a thraw gan hwn ac arall. Cai y cymorth mwyaf gan y diweddar John Williams o Gwrtybrodyr.

Y mae o fiaen fy llygaid ddarlun byw o'r olaf, gyda'i lais peraidd, yn gwneud ei oreu i chwyddo swn y gan. Nid digon gan Mr. Thomas i roddi'r emyn allan yn weddol aml, ond pan roddai ef allan rhaid oedd canu'r emyn i gyd. I mi, ac o bosibl (ac yn debygol) i'r gynulleidfa, rhoddai hyn rhyw foddhad anghyffredin—gweld yr hen wr yn canu'r emyn i gyd, heb fawr iawn o help, a chyda hunanfoddhad mawr iawn. Canai a'i holl ymmi. Ac nid yn sier ydwyf nas siomid yn fawr pe na roddasai Mr. Thomas yr emyn allan i gyd. Yr oedd yn arferiad bryd hynny i ddarllen pob pennill fel yr eid ymlaen, ac nid canu'r emyn yn un llinyn fel yn ein dydd ni. Da iawn y cofiaf fel y gwrandawn arno o ymyl yr oriel gydag edmygedd plentynaidd. Gyda llaw, nid oes neb a fedr edmygu fel y plentyn; a pherthyn iddo ryw allu rhyfeddol—rhyw allu greddfol, fel y gellir yn briodol iawn, ei alw—i farnu beth a phwy sydd deilwng o edmygedd neu heb fod yn deilwng ohono. Yr oedd gan Jaci lais melodaidd; a disgynai'i seiniau ar glust y gwrandawr yn felys odiaeth. Ac yr oedd ei enaid i gyd yn y gân: oedd, yr oedd ei enaid i gyd yn y gân. Yn hyn, yr oedd Thomas ei fab yn debyg iawn iddo. Nid erioed y bum yn siarad a Thomas nad ai yn ddiymdroi at ryw fater ynglyn a'r canu. Canu—canu—canu oedd ar ei fryd byth a hefyd. A meddai chwaeth dda iawn o gywir a chwrteithiedig ynhopeth cerddorol. Wn i ddim beth a ddaeth o'r dôn y cyfeiriais atu. Y mae ei seiniau—seiniau'r llais uchaf o honi—wedi aros yn fyw iawn ar fy nghof drwy'r blynyddoedd. Nid yw yn y "Perlau" newydd, nid yw'r emyn ychwaith.* I'm tyb i, y mae'r emyn yn un o'r emynau goreu a ddaeth o law'r hen folo: ac emyn ydyw a mawr angen am dano yn yr oes faterol hon. A chyda golwg ar y dôn, synnwn i fawr nad oes yn y "Perlau" newydd gryn dipyn o'i salach. Yr oedd gan Jaci lyfryn mewn ysgrif o tua chan tudalen a gynhwysai nifer luosog o hen donau, y dôn uchod yn eu plith, a'r oll yn yr Hen Nodiant. Ymha le y mae yn awr, tybed? Ar farw Margaret, aeth i feddiant Thomas. Da iawn a fyddai gennyf pe cawn feddiant o hono yn rhywfodd, fel y gallwn ei ddiogelu rhag mynd i golli.

---

* Nid oes sicrwydd am hyn eto, oherwydd pasiodd y Pwyllgor fod "Brondeifi" i fod yn y Llyfr Newydd (ni wn beth a wnawd yn y Pwyllgor diweddaf), a chredaf fod hen dôn Daniel Jones wedi'i chyfansoddi ar gyfer yr emyn a nodwch. Ceir gweld.—Gol.

Y mae'r teulu i gyd wedi diflannu : a sier ydwyf yr haedda ddywedyd am dano, " Hyn a allodd y teulu hwn wneud, yn enwedig y pen-teulu (Jaci), ef a'i gwnaeth." Y mae cryn nifer o'i ddisgynyddion yn wasgaredig hyd a lled y byd, a phery nifer luosog o honynt yn ffyddlon i'r cyff y tarddasant o hono. Wyr iddo yw'r Parch. Carara Davies, Belper. Bu Jaci farw yn 1878, yn 75 oed ; a gorffwys ei weddillion ym mynwent Capelygroes.

D.E.

Urdd y Benywod.

Eternal God, whose changeless will
Encircles all our changing years,
We praise Thy love which giveth still
Thy fruit of joy from seed of tears.

—J. Estlin Carpenter.

Newyddion yr Urdd.

Y MAE'R Urdd yn prifio gan estyn ei gweithgarwch i fannau pellennig. Cofleidia aelodau'r Frawdoliaeth yng Nghanada hyd y gorllewin pell, yn U.D.A., yn Ne Amerig, yn ynysoedd Falkland, yn New Zealand, Awstralia, a nes gartref yn Gibraltar, Ffraine, yr Almaen, Awstria, Sweden a Czecho Slovakia. Y mae'r mwyafrif wedi ymuno drwy'r canghennau a da hynny, oherwydd yn naturiol carant gadw mewn cysylltiad a'r Eglwys a'r bobl a adwaenant oreu, ac at y pethau cyfarwydd hyn y try meddyliau y benywod hyn y sy'n unig mewn ystyr grefyddol yn fwyaf naturiol. Ni wyr neb ond y rhai sydd wedi teimlo'r unigrwydd hwn beth yw cael eu tynnu i gylch eu hen gartref crefyddol gan deimlo y cysur o gael gofalu amdanynt gan y rhai sy'n gyfrannol eto o'r bywyd a'r addoliad yno. Ac felly i'r holl Ganghennau o'r cynorthwywyr a geisiant wasanaethu'u cyd-aelodau y daw gwybodaeth o wirionedd geiriau Iesu " Rhoddwch ac fe a roddir i chwi."

Llyfrau Undodol a Llyfrgelloedd Cyhoeddus.

Y mae Llyfrgelloedd felly yn ein trefi mawrion ond ymha sawl un ohonynt y ceir Llyfrau Undodol ? Dyna gwestiwn a godwyd yn y Pwyllgor Canol yn ddiweddar. Dywedai un aelod na cheid yn ei lyfrgell leol ond rhyw ddau neu dri llyfr a rhai hynny *out of date*. Y mae'n ddyledswydd ar bob Undodwr fynnu gweld y ceir y llyfrau hyn ym mhob Llyfrgell gyhoeddus.

CYFYNGDER YMHLITH MWNWYR Y RHONDDA.

Dywed y Parch. Rosalind Lee y sy'n adnabod y rhanbarth hwn yn lled dda fod yma lawer o gyfyngder ymhlith ein Cyd-Undodiaid yn y Rhondda ac awgryma y medrai Canghennau'r Urdd gynorthwyo'n effeithiol drwy anfon i Gapel Glanrhondda barseli o ddillad i'w rhannu rhwng aelodau y Capel mewn angen, ac o bydd yna weddill, bydded iddynt gael eu gwerthu'n rhad a thaflen a geir i gronfa'r Capel. Y mae cydymdeimlad dyfnaf y Pwyllgor gydag awgrym Miss Lee. Cyfeirier y parseli at Ysgrifennydd Urdd y Benywod (Women's League Secretary), Glanrhondda Unitarian Chapel, High Street, Pentre, South Wales.

ADRODDIADAU'R URDD.

Y mae'r amser yn nesau pan fydd raid i'r Pwyllgor Canol ddechreu siarad am Adroddiadau'r Canghennau, a rhaid i bob Cangen ddechreu meddwl o ddifrif am danynt. Llunier i gall hanner gair.

Adolygiadau.

MYFYRDOD MEWN MYNWENT.
(*Ad-Argraffiad o'r Argraffiad Cyntaf*, 1798).

Y MAE'N bleser cael copi fel hwn—copi cywir o'r gwreiddiol, wedi'i argraffu'n lân heb geisio dim ond rhoi'r gân inni fel y'i preintiwyd y tro cyntaf erioed. Y mae'n anodd gwybod yn iawn faint o gyfnewid a fu arni. Hwyrach i Ddafis newid ychydig arni wedi'i chyhoeddi yn 1798, a chyn ei rhoi yn "Yr Eos" na "Thelyn Dewi" ond wrth ei chymharu yma ac fel y'i ceir yn Nhelyn Dewi y Trydydd argraffiad, credaf y medrwn gael rhyw 75 o leiaf o ryw fân gyfnewidiadau a'r mwyafrif ohonynt mewn orgraff. Diolchaf i'm hen gyfaill John Davies, Glynteg, Aberystwyth, ac o'r Llyfrgell Genedlaethol am wneuthur o hono'r gymwynas hon inni, ac fe ellir cael copiau o'r gân oddiwrtho. Y mae ganddo nodyn, a gwn fod rhyw ameu ers blynyddoedd yn ei feddwl ai gwaith yr hen Ddafis ydyw. Nid yw hyn yn beth i ryfeddu ato heddiw. Hyd y gwn i ni cheir mohoni yn llawysgrifau Iolo a hwyrach felly y medrir ei chadw fel "pentewyn o'r tan" i'r hen fardd. Dyma'r nodyn—"Prinder y Gân a ddaeth allan gyntaf yn 1798 yw y rheswm dros ei hargraffu y tro hwn. Nid oes hanes ond am un copi cyflawn ar gael, a hwnw yn yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain. Wele'r Gan air am air fel y daeth allan o Wasg I. Evans, Caerfyrddin, yn 1798. Gorchestwaith D. Davis o Gastellhywel ydyw, meddai'r Beirdd, ond beth sydd i gyfrif am ei hymddangosiad ar ddiwedd "Yr Eos" sef gwaith prydyddawl Ed. Richard, Ystrad Mourig, yn 1803?" Yr wyf wedi darllain gwaith Ed. Richard a Chastellhywel, ac nid oes ameu yn fy meddwl i. Ni chredaf fod gan yr hen fardd o Gastellhywel ddigon o bres ar ei wyneb i gyhoeddi dan ei enw ei hun yn "Nhelyn Dewi" rhyw ychydig cyn ei farw gân oedd wedi'i chyhoeddi yn "Yr Eos" rhyw ugain mlynedd yn gynt. Ni ddywedir yn "Yr Eos" mai gwaith Ed. Richard ydyw a pheth digon naturiol yr adeg honno oedd cael gwaith *Castellhywel* hyd yn oed yn "Yr Eos" gan Ed. Richard. Credaf i fod yr hen Ddafis yn onest, ac wedi rhyw gan mlynedd y mae'n eiddo iddo by "*quiet possession*."

"CATRIN PISGAH."

Nid yn aml yr ydym yn gweled tarddiadau ein hafonydd, am eu bod, fel rheol, yn ffynonellau bychain cuddiedig mewn rhyw fynydd anghysbell. Ond fel y maent yn codi yn afonydd, ac yn gorlifo dros y ceulanau, maent y pryd hwnnw yn dyfod yn adnabyddus ac edmygol iawn gan bawb. Felly, ni wn innau nemor am ddyddiau bore ein chwaer annwyl, "Catrin Pisgah," Ceredigion, ond daethum i wybod yn dda am dani yn ei charedigrwydd fel cymydoges, a'i ffyddlondeb crefyddol yn mhrydnhawnddydd ei bywyd. Pleser oedd byw yn ei hymyl. Pwy fedr brisio gwerth un yn byw y Cristion? Teulu arall rhagorol ym Mhisgah y pryd hwn oedd teulu y "Ffactri." Pa le y gwelwyd dyn rhagorach na John Evans, y Ffactri? Ganwyd gwrthddrych y cofiant hwn mewn ty bychan o'r enw Pwllybladur, lle heb fod nepell o bentref tlws Talgarreg, lle annwyl yn ein cof. Ond fel "Catrin Pisgah" yr adwaenid hi trwy y wlad. Bu yn byw ar ben Pisgah am y cyfnod hirfaith o 45 mlynedd, tafell go fawr o oes dyn a dynes. Ym Mhisgah y carai fyw, ym Mhisgah y carai addoli, ac y mae yn anhawdd iawn meddwl am Pisgah ar wahan iddi hi. Buom ar ymweliad a'r lle yn ddiweddar, a theimlwn hiraeth mawr am yr hen gyfeillion anwyl a welais yma. Yr oedd Catherine yn ffyddlawn a didwyll iawn, yn un o golofnau yr Ysgol Sul, a byddai bob mis yn "ateb y pwnc" gyda'r ysgol. Nid oedd hi yn teimlo ei hun yn rhy hen i fod yn ddisgybl yn yr ysgol, ac yr oedd yr ysgol a'r "ateb" y Sul y bu farw, a methodd un chwaer ag uno gan deimladau drylliog. Bu byw nid yn unig yn hir, ond hefyd yn dda. Llanwodd ei bywyd a daioni hyd yr ymylon; carai wneud ei goreu i bawb. "Yr hyn a allodd hon hi a'i gwnaeth." Yr oedd Catherine Parry yn ddynes oleuedig iawn yn y Gair. Ofnwn fod ei bath yn prinhau yn y Dywysogaeth. Dywedai Mr. Jenkyn Thomas, Rhydyrwyn, blaenor y gân ym Mhisgah er ys blynyddau bellach, ac un o athrawon goreu yr Ysgol Sul, wrthyf ryw dro ei fod yn rhy esgeulus gyda llafurio ar gyfer ei ddosparth, "ond bydd raid llafurio yn awr," meddai, "oblegid yr wyf wedi fy mhenodi yn athraw ar y dosparth y mae 'Catrin' yn ddisgybl o hono, ac ni thal hi ddim i fyned yno heb ragddarparu." Yr oedd hi yn berson penfawr—yn gweled i'r dyfnderoedd—yn ddynes gref o gorff a meddwl, wedi treulio ei hoes i ddarllen "yr un llyfr." Nid oedd ganddi un esboniad yn ei thy, ond Beibl Peter Williams, ac ni chymerai fenthyg esboniad; ond anhawdd iawn fyddai gofyn un gofyniad iddi na fedrai roddi goleuni helaeth arno. Rhaid i dir gwael a diffrwyth wrth achles cyn y ceir ffrwyth o hono; ond am dir da a bras, dwg gynnyrch o hono ei hun. Ac y mae yr achles yn aml yn troi ei flas ar dir gwan. Tir cynhyrchiol oedd meddwl mawr Catherine Parry, yn dwyn ffrwyth o hono ei hun. Nid oedd byth flas yr esboniadau arwynebol, na'r geiriaduron sychion, ar ei meddwl cadarn ac iraidd hi. Cawsai afael ar yr adnodau heb gymorth yr un "cwmgordiwn," fel y gelwid y llyfr gan hen bobl y wlad. Yr oedd yr holl blygion, a'r miloedd marciau, a'r dagrau oedd yn yr hen Feibl, yn ddigon o gyfarwyddiadau iddi gael gafael yn yr holl adnodau. Yr oedd gafael gan y Gair ynddi, a gafael ganddi hithau yn y Gair. Bwytaodd y llyfr i gyd ond y cloriau! Esboniai y Gair yn ei oleuni ei hun. Beibl i esbonio Beibl; ni cheisiai y dydd yng ngoleuni y ser na'r lloer, ond yng ngoleuni yr haul tanbaid ei hun. Yr oedd yn methu cydweled a mi ar ambell bwnc; dygai fawr sel dros drochiad fel dull bedydd; daeth drwy gysylltiadau perthynasol yn ieuanc o dan ddylanwad hwn. Rhyw Sul pregethais ar "Ddull bedydd, a deiliaid bedydd." Dywedodd wrthyf dranoeth, "Wirione fach anwyl i, nid wyf yr un farn a'r bregeth yna ddoe i gyd. Yr oeddech chwi yn rhoddi mwy o bwys ar y bedydd mewnol na'r allanol: taw arwyddion oedd yr allanol o'r grasusau mewnol, ond gafodd Iesu Grist ei fedyddio yn yr Iorddonen, ond," meddai,

"y pwnc i ni yw cael y bedydd mewnol iawn, fel y dangosoch chi ddoe. Gwnawn yn burion a'r allanol gwedi hyny." Yr oedd ganddi ei barn ei hun ar bynciau y Beibl, a beth bynnag am ei barnau, yr oedd ei bywyd yn fywyd tyner, caredig, cymydogol, a chrefyddol; hen gymydogion braf oedd gennym ym Mhisgah. Nid dynion yn byw yn yr ymyl yn unig, ond cymydogion Cristionogol. Yr oedd ein gwrthddrych yn gymydoges yng ngwir ystyr y gair, yn ateb yn hollol i'r syniad Beiblaidd beth ddylai cymydog fod. Chwiliai am le i fod yn garedig. Nid ydym yn honi ei bod yn berffaith, mwy na'r rhelyw o'r rhai da, ond ni welsom nemor erioed yn actio Cristionogaeth yn well na hi. Yr oedd yn ddynes dyner i ddyn ac anifail. Y mae ambell ddyn yn gas i bob peth, ni phasia asyn ar y ffordd heb roddi ergyd iddo; rhydd gic i'r gath, rhydd broc i nyth y picwn, er ei ofid yn aml; ond yr oedd y ci a'r gath, a'r asyn, a'r merlyn yn well o grefydd Catherine Parry. Buom yn byw am flynyddau yn ei hymyl, ac nid anghofiwn yn y byd hwn na'r byd a ddaw mo'i charedigrwydd; gwir taw mewn pethau bychain y byddai hi yn ei ddangos, ond y mae pethau bychain yn myned yn bethau mawrion yng ngolwg dyn, ac yng ngolwg Duw hefyd o ran hyny. "Cwpanaid o ddwfr i ddisgybl," etc. Try y diferyn dwr oer yn berlyn hwnt i'r lloer. Nodaf un engraifft er dangos ei charedigrwydd i greadur direswm. Yr oedd fy mhoni yn pori yn y cae tu chefn i'w thy; yr oedd y creadur yn gyfaill mawr iddi, ond nid heb achos. Yr oedd yn ei dilyn ar y cae; yr oedd wedi gweled caredigrwydd "Catrin." Yr oedd yn cael dwfr a blawd ceirch gyda hi yn aml, ond ni ddywedodd wrthyf ei bod yn gwneud hyny erioed. Nid udganai ddim am ei charedigrwydd o'i blaen. "Na wyped dy law aswy pa beth a rydd dy law ddeheu," oedd ei charedigrwydd hi bob amser. Eisteddai yn ein ty ni bob nos Sul y byddwn ym Mhenrhiwgaled, yn gwmni gyda Mrs. Davies a'r teulu, ac nid clonc a chlebar oedd ei chwmni hi, ond adnodau, a phwnc y bregeth y boreu, a rhyw ddarlun tlws oedd wedi cydio yn ei henaid mawr. Yr oedd ei chymdeithas yn ddifyr ar hirnos gaeaf, ac iechyd oedd ei gweled yn chwerthin. Pan glywai fi yn dod adref, dyma hi allan a'r lantarn yn ei llaw, a'r cwestiwn cyntaf yn wastad fyddai, "A oes chwys ar y poni heno? Wirione, mae yn rhaid iddo gael tipyn o ddwr twym a blawd; y mae yn oer iawn iddo heno." Pan fyddwn ar gychwyn oddi cartref, y siars olaf bob amser fyddai, "Gofalwch beidio gyrru y poni wirione." Yr oeddwn yn cychwyn o Bisgah un boreu Sul gerwin glawiog hynod i bregethu i gylch pell a phwysig yn Sir Aberteifi. "Peidiwch a myn'd heddyw, wirione," meddai; "y mae arnaf ofn yr aiff y poni a chwithau yn sâl; yr ydych yn rhyfygu i fyn'd ar fath dywydd; glaw tynwyn Abertawe i ni yn galw hwn yma, a glaw ofnadwy yw e'." Chwarddwn am mai y poni oedd yn flaenaf, a minnau yn ail, ac yr oeddwn yn teithio trwy'r daith hirfaith honno, a geiriau caredig a gwirioneddol "Catrin" yn swnio yn fy nghlustiau. Y fath garedigrwydd a wel gweinidogion ieuainc gan hen bobl dda y wlad, ac ni chafodd gweinidog fwy o garedigrwydd nag a gefais i. Ni ellir traethu y degwm o'r daioni yma. Yr oedd ffermdy yn ymyl Pisgah, a'r dwymyn goch yn ddrwg iawn yno; rhyw saith yn gorwedd ynddi. Yr oedd yn anhawdd cael neb i'r ty oblegid ofn y dwymyn, ond aeth hi yno i ganol y perygl; trodd y plant ym mheiriau cystudd, peryglodd ei bywyd. Dyma eto ysbryd yr Athraw mawr—boddlon colli ei bywyd ei hun er mwyn cadw ereill! Ymwelais a hi yn aml ac yn gyson yn ystod ei chystudd maith a phoenus ac yr oedd yn foddion gras bod yn ei chymdeithas. Yr oedd ei phrofiad ar adegau yn uchel iawn; yr oedd yn ymwroli fel un yn gweled yr Anweledig—y tir pell, y tir dymunol, hyfryd baradwysaidd wlad. Gwelodd Grist, fel Simeon, cyn gwel'd angeu. Nid yw colli dynion da yn golled i gyd. Y maent gyda ni yn fwy nag erioed yn eu cynghorion, a'u caredigrwydd, a'u hesiamplau da. Nid oes

dim yn myned i golli ym myd Duw. "Y maent wedi marw yn llefaru eto," ac yn ein hymyl.

(Allan o "*Gwahanol Gymeriadau*" —Y Byw a'r Meirw—i'w gael gan y Parch. T. R. Davies, Broughton, Albert Place, Aberystwyth, pris 7c. Brasluniau ydyw o gymeriadau hwnt ac yma wedi'u gwau yn fras ac wedi'u gwisgo mewn brethyn cartre. Chwyth rhyw awel o'r wlad—fel awel dros ben Pisgah drostynt a medr yr awdur dynnu darlun "*true to nature*" chwedl Wil Bryan. Hoffaf ei ddarluniau fel hyn ac ni fedr neb wneuthur yn well na mynnu'r darluniau hyn a gwelir yma ddyn yn ysgrifennu heb boeni am orgraff na dim ond drwy ysgrifennu fel efe ei hun heb boeni am Feibl 1620 na dim yn cadw'n glos glos at safon ond inni anghofio rhyw fanion dibwys.)

Priodasau.

Sadwrn, Rhagfyr 10, yn Siloam, Nantgaredig, o flaen y Parch. Curwen Davies, a'r Cofrestrydd, priodwyd Mr. Daniel Bowen, Trebanos, a Miss Maggie May Pierce, Nantgaredig.

Sadwrn, Rhagfyr 17, yn Ebenezer, Llandilo, o flaen Gweinidog y lle, a'r Cofrestrydd, a'r Parch. D. G. Rees, Trebanos, priodwyd Mr. Glyn Rees, Llanfynydd a Miss Maggie May Morgan, Trebanos.

Ym Mwlchyfadfa, dydd Sadwrn, Rhagfyr 31, 1927, gan y Parch. E. O. Jenkins ac o flaen Mr. Tom Jones, y Cofrestrydd, Miss Anna Jones, Llawrcwrt, Talgarreg a Mr. William Thomas, Cross Inn Farm, Llanfihangel-ar-arth. Eiddunwn iddynt bob daioni.

Marwgofion.

Mehefin 16, yn 81 mlwydd oed, bu farw William Davies, Llwynifan House, Llanybyther. Efe oedd yr olaf o'r hen deulu a fu'n ffyddlon yng Nghaeronnen yn y dyddiau a aeth heibio. Daliodd i'r diwedd ac nid oedd ond megis deilen grin yn syrthio gyda'r awel. Bu yn ffyddlon ar hyd y blynyddoedd i Gaeronnen ac Alltyplaca a chadwodd ei ffydd yn fyw ac iraidd i'r diwedd. Yr oedd wedi'i amddifadu o gwmni'i gymar er's ychydig flynyddoedd ond yr oedd ei unig ferch yn ofalus a thyner ohono i'r diwedd. Er gorwedd o'i gymar yn Aberduar, yr oedd galwad Macpelah'r teulu yn ormod iddo a thua'r diwedd hiraethai yntau am gael mynd i orwedd gyda'i dadcu yn nacar hen fynwent Caeronnen. Gwasanaethwyd yn y ty ddydd ei angladd gan y Parchn, Collwyn Morgan a D. C. Griffiths. Aberduar, ac yn y Capel ac ar lan y bedd gan Weinidog Caeronnen. Gadawodd un ferch a nifer o berthynasau ereill i wylo o'i golli, a rhoes ei ran o Luast y Bwlch i Gaeronnen ac Alltyplaca er coffa am dano.

Medi 1, 1927, yn 83 mlwydd oed, bu farw Margaret Davies, 2, Greenfield Terrace Llanllwni, gynt o Bentrerhys, Llanwenog, yn nhy ei merch Holly Ville, Llanllwni. Yr oedd yn un o aelodau hynaf Alltyblaca ac wedi bod yno am 60 mlynedd. Benyw dawel, ddiwyd ac ymroddgar ydoedd ac wedi'i gadael yn weddw yn 1881 gyda saith o blant a chafodd eu gweld yn tyfu i fyny i fod yn nawdd a chefn iddi.

Nid oes yn aros heddiw ond tair merch a mab i alaru ar ei hol ac un chwaer, yn awr o Dreorchy ond gynt o Gwrtnewydd. Claddwyd ar y 6 o Fedi ym mynwent Eglwys Llanwenog. Gwasanaethwyd yn y ty gan y Parchn. Collwyn Morgan a D. Morris Jones. Pregethwyd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr, a gwasanaethwyd yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan y Parch. Daniel Thomas, M.A., Curad y Plwyf. Gadawodd bedwar o blant un chwaer a pherthynasau ereill a llu o gydnabod i alaru'n dawel ar ei hol.

(Blin gennyf na buasai'r ddau farwgof hyn wedi ymddangos yn gynt. Diolchaf am alw fy sylw at hyn ac ymddiheuraf i'r ddau deulu. Ni fedraf roi'r bai ar arall oherwydd mai fi fy hun oedd yn gwasanaethu. —Gol.).

Rhagfyr 24, ar ol cystudd maith a chaled, bu farw Margaret Davies, Maesffynnon Cottage, Felinfach, yn 74 oed. Mawrth canlynol claddwyd ym mynwent Rhydygwin, pryd y gwasanaethwyd gan y Gweinidog, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. D. Jones (B), a T. O. Williams, M.A., Llanbedr. Benyw dduwiol, dawel a didramgwydd oedd Margaret Davies, ac er ei bod mewn oedran wedi croesi llinell yr addewid, cadwodd ei hyspryd yn hynod o ieuanc a hynaws hyd y diwedd. Ynddi hi y gwelwn yr olaf o deulu a fu unwaith yn lluosog yn yr ardal, wedi ein gadael. Bu trwy ei hoes yn ddiwyd a dyfal, a chyda gofal ac aberth noddodd y teulu a hi fu ei gysgod a'i gynghor am flynyddoedd. Bu hefyd yn gweinu ar lawer y tu allan i gylch y teulu ym mhell ac agos, a thystiolaeth pawb yw ei bod wedi gwneud diwrnod o waith da a gonest. Wedi i'r iechyd ballu, aeth at ei nhith i'r Garth, Llanbedr, lle y cafodd bob gofal a thynerwch a chydymdeimlad hyd y diwedd. Cydymdeimlwn yn fawr a'r perthynasau i gyd o golli un ag oedd mor ddwfn yn serch-iadau y teulu i gyd. Bydded llawenydd o gofio y daioni a wnaeth, ac am eich bod wedi cael gweini ar gymeriad mor ddidwyll. "Yr oedd gair da iddi gan bawb."

Ar y 27 o Ragfyr, yn 52 oed, bu farw Joseph Edward Evans, M.P.S., 69, Leytonstone Road, Llundain, ar ol cystudd byr o ychydig o ddyddiau; a chladdwyd ei weddillion y dydd olaf o'r flwyddyn yn y *City of London Cemetery*, Ilford. Mab ydoedd i'r diweddar Daniel a Margaret Evans, Dolau-uchaf, ger Llanybyther. Derbyniodd ei addysg elfennol yn Ysgol Pencarreg dan ofal ei diweddar Athro John Davies. Ar ol gorffen yno aeth i Ysgol Ramadegol, Llanybyther i baratoi ar gyfer yr arholiad gyntaf y *Pharmaceutical Society*, a llwyddodd i basio cyn gorffen o hono yr 16eg flwyddyn o'i oedran. Ar ol yr arholiad, aeth at ei frawd, Mr. Evan Evans, M.P.S., Amanford, fel breintwas, a bu yno am dair blynedd. Ar ol hynny bu yn Leamington, Caerdydd, Dowlais, a lleoedd eraill. Yn 1897, aeth i'r *Metropolitan College of Pharmacy* yn Llundain. Ar ol ei dymor yno, bu gyda Deacon and Co., Day's Metropolitan Drug Co., a chyda'u holynwyr Boots Cash Chemists fel prif-oruchwyliwr yn un o'u canghennau. Yn 1903, cychwynodd ar ei gyfrifoldeb ei hun yn y cyfeiriad uchod, gan brynu masnach bwysig Mr. Cartwright, a bu'n llwyddiannus iawn yn ei fasnach. Enillodd iddo'i hun barch a dylanwad mawr ymhlith ei gymrodyr yn y fasnach fferyllol, yn gymaint felly fel y'i dyrchafwyd i gadair Lywyddol y *West Ham and District Association of Pharmacists*, yn sefydliad a llwyddiant yr hon y chwaraeodd ran bwysig; a chyn ei ddyrchafiad i'r Gadair, bu'n Ysgrifennydd a Thrysorydd ac aelod o'i Phwyllgor. Gadawodd weddw a phlant, dwy chwaer, a phump o frodyr ar ei ol. Tra yn Nowlais, bu'n fynychwr a noddwr ffyddlon o'r achos Undodaidd, a blin iawn oedd gan y ddeadell fechan ei golli. Fel un o'm disgyblion cyntaf yn Llanybyther, a'r cyntaf (ynghyd ag un arall) a fu'n llwyddiannus mewn arholiad o'm hysgol, yr oedd gennyf barch diffuant iddo a meddwl uchel iawn am dano; a

blin gennyf feddwl am ei farw cynnar. Yr oedd yn fachgen o dymer fwynaidd, o ymddygiad boneddigaidd, a hawdd ei drin; a hawdd ydoedd deall bryd hynny bod gyrfa lwyddiannus o'i flaen. Ac nid syndod i mi, o gofio am dano fel disgybl imi, iddo esgyn i safle mor uchel yn ei alwedigaeth. Da gennyf gael y cyfle hwn i ddwyn hyn o dystiolaeth iddo fel bachgen a osododd ei nod yn uchel ac na orffwysodd nes iddo ei gyrraedd—o leiaf, i ddod yn agos iawn ato.

Yn hwyr y dydd cyntaf o'r flwyddyn ac yn gymharol sydyn David Jones, Pantstreimon, Llandysul, yn 77 oed. Gadawodd mewn galar briod, merch, mab (y Parch. H. H. C. Jones, B.A., Caerdydd), chwaer a llawer o berthynasau ereill. Mab Maesygarn, Cwrtnewydd oedd yr ymadawedig a deallwn iddo fod am gyfnod maith yn neillduol o ffyddlon gyda'r achos yng Nghapelybryn—yn y gwasanaeth, yr Ysgol Sul a'r Ysgol Gan. Cai bleser nid bychan i fynd dros y blynyddoedd hynny ac i son am y cor, y canu a'r cystadlu ddeugain mlynedd—mwy neu lai yn ol. Daliodd o anian grefyddol hyd y diwedd er ei fod ers blynyddoedd wedi ei lwyr analluogi i fynychu'r gwasanaeth gan y gymalwst a diffyg anadl. Ar adeg ei farwolaeth yr oedd yn un o aelodau hynaf Eglwys Llwynrhydowen ac hefyd yn ddiacon. Cymerai gryn ddiddordeb ym mhynciau'r dydd. Darllenai, os nad yn helaeth iawn, yn graffus a manwl, a charai "gnoi ei gul" megis ar ol darllen. Ni charai ddangos ei hun ac yr oedd yn llawer mwy o ddyn yn y gwraidd nag ar yr wyneb. Ar yr aelwyd yr oedd yn ddyn o anian ddiddig a dymunol iawn a dawn ryfeddol ganddo at drefnu goruchwylion y ffermn. Yno fe welir ei eisieu'n fawr. Fel cymydog yr oedd yn ddyn heddychol a chymwynasgar, yn onest a chywir yn ei air fel yn ei weithred. Ffieiddiai dwyll. Claddwyd y dydd Iau dilynol yn ymyl ei bobl ym mynwent Capelybryn. Gwasanaethwyd yn y ty a phregethwyd yn y Capel gan y Parch. E. O. Jenkins. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parchn. E. Glyn Edwards (B), D. Conwil Evans a T. Arthur Thomas. "Da was, da a ffyddlawn.

Ar y 4 o Ionawr, bu farw Thomas Davies, annwyl blentyn Josua ac Eleanor Davies, Pantyronnen, ger Blaencwrt, plwyf Llanwenog, yn flwydd a hanner oed. Achos hiraeth mawr yw colli un bychan mor ffraeth a dengar; eithr ymgysured y rhieni a'r perthynasau a'r meddwl mai "eiddo y cyfryw rai yw teyrnas nefoedd." Claddwyd y Sadwrn dilynol ym mynwent Capelygroes, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans, gweinidog y lle.

Ar y 15 o Ionawr, yn 17 oed, bu farw Mary Gwenllian Thomas, annwyl ferch David a Sarah Thomas, Castell House, Heol y Bont, Llanybyther. Cafodd gystudd maith a chaled, a da ydoedd, ar un olwg, iddi gael gollyngdod; er hyn, bu ei marw yn ergyd ac yn brofedigaeth chwerw iawn i'w theulu, a hiraethir yn ddwys ar ei hol. Yr oedd yn ferch ieuanc fwynaidd ac o rodiad cywir, a hoffid hi yn fawr gan gylch ei hadnabyddiaeth. Gadawodd mewn galar ar ei hol, dad a mam, un chwaer, saith brawd, a nifer luosog o berthynasau agos eraill. Dydd Iau dilynol, hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Alltyplaca gan dorf anarferol o luosog. Darllenwyd a gweddiwyd yn y ty gan y Parch. T. Jones, Ficer Llanybyther, a gweddiwyd wrth y drws gan y Parch. Mr. Nicholas, Llansawel. Yn y Capel darllenwyd gan y Parch. T. Arthur Thomas, Pantydefaid, ac yn absenoldeb y Parch. L. Williams, gweinidog y lle, (oblegid afiechyd), pregethwyd gan y Parch. D. Evans, Capelygroes, oddiar Salm xcvii, 2, a Ioan xiii, 7. Gweddiwyd ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr. Yr oedd yn bresennol, hefyd, y Parchn. D. James, Rhydybont a D. C. Griffiths, Aberduar.

J. D. Lewis, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Crown 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers, 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. STEPHENSON, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original M.S. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, W.C. 2

YOUR CHILDREN'S EYESIGHT IS THEIR MOST VALUABLE POSSESSION.

If you have the slightest suspicion that your child is suffering in any degree from eye-strain, which may be indicated by headaches after a day at school, or by the child poring over a book with its head very close to the page, you should consult a qualified optician who will gladly offer you a candid opinion, and will most certainly not prescribe glasses unless absolutely necessary, after the most careful tests.

CECIL JONES, F.S.M.C., F.B.O.A., F.I.O. (London).

Is fully qualified to offer every service for the eyes at his sight-testing rooms, both at

26, Great Darkgate Street, Aberystwyth (Telephone 209)

And at JONES, JEWELLER, LLANDYSSUL.

IT WILL PAY YOU TO SEE OUR HUGE SELECTION OF WINTER GOODS BEFORE YOU BUY. . . .

E. LLOYD JONES

Bradford House, Llandyssul.



A Complete Banking Service

The Midland Bank offers exceptional facilities for the transaction of banking business of every description through over 1960 branches covering all important agricultural, commercial, industrial and residential districts in England and Wales.

Deposit accounts may be opened in amounts of £1 and upwards, and interest is allowed at current rates.

The Branch at 9 Lincoln Street, Llandyssul, is open every week-day, from 10 a.m. to 12 noon on Saturday and from 10 a.m. to 3 p.m. on other days.

MIDLAND BANK

LIMITED

HEAD OFFICE: 5 THREADNEEDLE ST., LONDON, E.C. 2

Affiliations: Belfast Banking Co. Ltd., Northern Ireland; The Clydesdale Bank Ltd., and North of Scotland Bank Ltd., Scotland; Midland Bank Executor and Trustee Co. Ltd.